



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd

Rhifyn 4

Cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd NAS 2024



Thema'r cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd hwn yw 'Mae'n cymryd pentref...'. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys diweddariadau o bob un o'r rhanbarthau ac mae'r ail ran yn canolbwyntio ar y cyfraniad y gall ystod eang o bobl ei wneud i Gwaith Taith Bywyd.

Mae Cymru'n parhau i berfformio'n dda, mewn perthynas â Gwaith Taith Bywyd, o gymharu â gweddill y DU fel y cydnabyddir yn adroddiad blynyddol Baromedr Mabwysiadu.

Fodd bynnag, nid oes lle i fod yn hunanfodlon, ac mae angen i ni barhau i weithio i sicrhau bod

gan bob plentyn unigol Gwaith Taith Bywyd a deunyddiau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol ac sydd o'r ansawdd gorau posibl. Yn ogystal â'r Fframwaith Gwaith Taith Bywyd, y Pecyn Cymorth a'r Canllaw Ymarfer, a lansiwyd yn 2018, rydym yn ffodus i gael rhwydwaith o gydlynwyr Taith Bywyd arbenigol ym mhob rhanbarth a all roi cyngor a chymorth i eraill ynghylch paratoi deunyddiau Gwaith Taith Bywyd a gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc. Dyma eu diweddariadau am y gwaith sy'n mynd ymlaen ym mhob un o'u rhanbarthau.

Chris Holmquist


Rheolwr Datblygu Cymorth Mabwysiadu Tîm Canolog NAS



Tueddiadau dros amser: Deunyddiau stori bywyd

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru ganllawiau newydd sylweddol i ymarferwyr fel ffocws hirdymor ar daith bywyd a hunaniaeth mewn mabwysiadu.

Cyfran a nododd fod deunyddiau hanes bywyd yn 'dda' neu'n 'ddigonol' 2018-2022 (DU a Chymru)



Ffynhonnell: The Adoption Barometer,
A stocktake of adoption in the UK.



Diweddariadau Cenedlaethol

Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru



South East Wales Adoption Service
Achieving More Together



Raluca Miklovits

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Raluca wedi bod yn brysur yn sicrhau bod deunyddiau Taith Bywyd Gwaith ar draws SEWAS yn parhau i wella, o ran amseru yn ogystal â'u hansawdd. Fel cydlynnydd Gwaith Taith Bywyd, mae hi wedi bod yn darllen yr holl Lyfrau Taith Bywyd drafft a Llythrau Bywyd Diweddarach a gwblhawyd ar gyfer y Panel Paru ac mae wedi rhoi adborth i weithwyr cymdeithasol

yn barhaus. Mae'r adborth wedi canolbwyntio ar annog ymagwedd fwy cyfeillgar i blant wrth ddisgrifio trawma'r blynyddoedd cynnar, fel bod plant yn tyfu i fyny gyda gwell dealltwriaeth o'u naratif. I gyd-fynd â'r gwaith hwn, mae hi wedi bod yn darparu hyfforddiant Gwaith Taith Bywyd rheolaidd i weithwyr cymdeithasol, gofalywyr maeth, IROs a'r holl ymarferwyr Gwasanaethau Plant eraill, gan wneud yn siŵr bod gan bob un ohonynt yr un dull "posau" o roi eu naratif i blant.

Mae hi hefyd wedi bod yn cyfarfod â darpar fabwysiadwyr, yn bennaf o gwmpas amser eu Panel Paru, i drafod eu barn am ddeunyddiau drafft Gwaith Taith Bywyd ac i gynllunio eu cyfraniad at y llyfrau. Meddai Raluca, "Mae wedi bod yn braf iawn gweld ymrwymiad y mabwysiadwyr i roi naratif cydlynol, manwl i blant ac rydw i gymaint yn fwy gobeithiol am ddyfodol Gwaith Taith Bywyd yn SEWAS".



Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru



Sian Gibbon

Mae Sian yn parhau i ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr mewn timau gofal plant awdurdodau lleol yn ogystal ag i ofalwyr maeth, darpar fabwysiadwyr a rhieni mabwysiadol ar draws y rhanbarth. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth godi ymwybyddiaeth o sut y gall gwahanol bobl allweddol gyfrannu at ddatblygiad y Gwaith Taith Bywyd, er mwyn darparu deunyddiau Taith Bywyd o ansawdd da ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu.

Mae ymgynghoriadau Gwaith Taith Bywyd bellach yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd i gefnogi gweithwyr gofal plant proffesiynol gyda chynllunio, casglu gwybodaeth a datblygu'r naratif yn y deunyddiau Taith Bywyd ar gyfer plant mabwysiedig. Mae Sian hefyd yn darparu cefnogaeth i weithwyr gofal plant proffesiynol gyda sicrwydd ansawdd fersiynau drafft a therfynol o ddeunyddiau Gwaith Taith Bywyd. Mae hi hefyd yn parhau i fonitro anghenion cymorth teuluoedd mabwysiadol mewn perthynas â Gwaith Taith Bywyd. Yn dilyn adborth diweddar gan fabwysiadwyr, mae Sian yn y broses o ddatblygu gweithdy newydd ar gyfer rhieni mabwysiadol, gyda ffocws ar pryd a sut i rannu deunyddiau Taith Bywyd gyda phlant mabwysiedig. Bydd y cwrs newydd hwn yn cael ei gyflwyno i rieni sy'n mabwysiadu yn ystod Gwanwyn 2024.

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru



Sarah Ryan

Mae Sarah Ryan, gweithiwr cymdeithasol Taith Bywyd ar gyfer y rhanbarth, wedi bod yn gweithio gyda'r 6 awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru i gydlyn cynllun hyfforddi Taith Bywyd ar gyfer y rhanbarth. Bu hwn yn hyfforddiant wyneb yn wyneb i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i ysgrifennu deunydd Taith Bywyd o ansawdd da. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cefndir i waith Taith Bywyd,

mesurau perfformiad NAS a chanllawiau arfer da. Mae hefyd yn archwilio sut i ysgrifennu am stori anodd, gan lunio naratif clir i blant gan ddefnyddio enghreifftiau o CAR B a chyfieithu hwn i lyfr oedran ysgol gynradd. Mae'r hyfforddiant yn ymarferol iawn ac yn rhoi gweithgareddau creadigol a therapiwtig i'r rhai sy'n mynychu i feithrin perthynas â phlant. Mae'r adborth o'r hyfforddiant hwn wedi bod yn gadarnhaol. Mae Sarah yn parhau i gynniig cyfarfodydd 1:1 i weithwyr cymdeithasol a mabwysiadwyr i'w cefnogi gyda'u hanghenion Taith Bywyd.

Mae Sarah hefyd yn archwilio gyda gweithwyr cymdeithasol a mabwysiadwyr sut i ddefnyddio straeon **cyfochrog***, i gefnogi plant iau, yn enwedig y rhai sydd â hanes cymhleth iawn.

Yr her nesaf i NWAS yw edrych ar fesurau perfformiad NAS a chreu grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar draws Gogledd Cymru i ailsefydlu ac ail-lansio Gwaith Taith Bywyd ar draws Gogledd Cymru. Felly, gwyliwch y gofod!

**Mae straeon cyfochrog neu drosiadol yn cynnwys naratif sy'n debyg i hanes gwirioneddol y plentyn, ond sy'n defnyddio cymeriadau ffuglennol, fel anifeiliaid. Mae hyn yn galluogi'r plentyn i brosesu ac integreiddio'r digwyddiadau a'r meddyliau a'r teimladau cysylltiedig yn haws.*

Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd



Tina James a Sara Jones

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur ac mae cynlluniau deinamig Sara a Tina ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn parhau, gyda ffocws parhaus ar hyrwyddo Gwaith Taith Bywyd o fewn VVC ac ar draws yr Awdurdodau Lleol partner. Mae VVC yn ffodus iawn i gael tîm o Weithwyr Taith Bywyd ymroddedig, sy'n cydweithio â rhieni biolegol, gweithwyr cymdeithasol a mabwysiadwyr i gynhyrchu llyfrau taith bywyd. Mae'r gweithwyr taith bywyd wedi'u lleoli ym mhob un o'r awdurdodau lleol a dywed Tina a Sara ei bod yn ffrind cyfarfod â nhw'n rheolaidd i rannu syniadau ymarfer a chlywed am eu hagwedd arloesol ac angerddol at y gwaith. Mae Sara a Tina yn gyffrous i fod yn cyflwyno gweithdai hanner diwrnod ar gyfer



mabwysiadwyr, i ymchwilio i waith taith bywyd o ddechrau 2024. Bydd y gweithdai hyn yn cael eu cyflwyno chwe gwaith y flwyddyn ac yn cael eu cynnig i bob mabwysiadwr yn y cam ôl-gymeradwyo. Mae Tina a Sara wedi dechrau ffurfio cysylltiadau â Chynghorydd Rhieni Biolegol VVC i archwilio gyda'i gilydd sut y gellir cefnogi teuluoedd biolegol i wneud eu cyfraniad hanfodol i ddeunyddiau taith bywyd. Maent hefyd wedi datblygu ystod o offer ac adnoddau i gefnogi rhieni ac ymarferwyr gyda Gwaith Taith Bywyd a chyn bo hir byddant mewn sefyllfa i gynnwys yr holl offer a'r adnoddau hyn ar adran taith bywyd bwrpasol ar wefan VVC.



Mabwysiadu Bae'r Gorllewin



Sarah Vaughan

Mae Tîm Taith Bywyd WBAS wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu cymorth i deuluoedd mabwysiadol eleni. Maent bellach yn cynnig rhaglen dreigl o weithdai ar gyfer mabwysiadwyr a fydd, gobeithio, yn rhoi mwy o hyder a syniadau ymarferol iddynt wrth rannu gwybodaeth am daith bywyd eu plentyn gyda nhw. Rhennir y gweithdai yn ddau grŵp oedran, 0-5 oed a 6 oed i fyny.

Mae'r gweithdai'n seiliedig ar gamau datblygu a'r hyn y mae plant yn ei ddeall a bydd yn chwilfrydig i'w wybod yn y cyfnodau hyn. Mae'r tîm yn cynghori ar sut i ddefnyddio'r deunyddiau taith bywyd sydd gan deuluoedd, yn ogystal â defnyddio llyfrau plant, ffilmiau a chwarae, i helpu plant i ddeall eu taith i fabwysiadu. Ochr yn ochr â hyn maent yn datblygu eu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol ar eu gwefannau preifat, i hyrwyddo adnoddau fel llyfrau plant ac awgrymu syniadau creadigol, i roi ffyrdd i'w mabwysiadwyr gyflwyno a siarad am fabwysiadu i'w plant. Maent ar hyn o bryd yn hyrwyddo llyfrau i alluogi rhieni i siarad â'u plant am sut mae teuluoedd yn cael eu gwneud mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys mabwysiadu ac sy'n dangos bod teuluoedd yn amrywiol ac yn dod o bob lliw a llun.



Adoption UK Cymru



Mae Adoption UK yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer rhieni mabwysiadol a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant mewn cysylltiad â Gwaith Taith Bywyd. Mae rhywfaint o'r hyfforddiant hwn yn benodol ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu yn eu tair blynedd gyntaf o fabwysiadu ac mae rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer unrhyw un y mae mabwysiadu'n effeithio arno.

Mae Adoption UK yn bwriadu cynnig cyfleoedd i rieni ac ymarferwyr mabwysiadol ddod at ei gilydd i drafod materion stori bywyd gyda chymorth staff sydd â'r profiad byw o reoli hyn pan fyddant yn oedolion. Mae Adoption UK hefyd yn datblygu gwasanaethau i gefnogi pobl fabwysiedig a bydd yn elwa o ddysgu o safbwynt yr oedolyn sy'n cael ei fabwysiadu yn ogystal â'r plentyn mabwysiedig sy'n tyfu. Mae gwasanaeth CONNECT yn cefnogi plant a phobl ifanc mabwysiedig ar draws y wlad a bydd eu llais yn cael ei glywed yn gynyddol i lywio ein harfer yn y maes hwn.

[Dyma ddolen](#) i fanylion cyrsiau hyfforddi Adoption UK Cymru.






**Mae'n cymryd
pentref...**

Mae'n cymryd pentref...

'Mae'n cymryd pentref i fagu plentyn' medden nhw. Yn yr un modd, nid tasg un person yn unig yw Gwaith Taith Bywyd da ond mae'n cynnwys yr holl bobl sy'n gofalu am blentyn ac sy'n gyfrifol amdano. Gall pob un ohonynt gyfrannu at ddeunyddiau a fydd yn helpu'r plentyn i dyfu i fyny gyda naratif cyfoethog a chydlynol ac ymdeimlad ohono'i hun fel unigolyn sydd â gwerth ac y mae eraill yn poeni amdano. Bydd cyfranogiad ehangach hefyd yn helpu plentyn i deimlo cysylltiad parhaus â phobl a chymunedau, a all liniaru'r ymdeimlad o golled a datgysylltiad y mae llawer o bobl fabwysiedig yn ei deimlo. Mae'r diagram yn dangos rhwydwaith nodweddiadol o amgylch Plentyn sy'n Derbyn Gofal a chysylltiadau posibl rhwng pawb a gymerodd ran yn ystod y cam tracio deuol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gweithiwr cymdeithasol y plentyn yw'r prif gyfrifoldeb am gasglu gwybodaeth Gwaith Taith Bywyd a chreu'r Llyfr Taith Bywyd a Llythyr Bywyd Diweddarach, ond ni allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol wneud popeth o fewn ei allu i annog **teulu cyntaf*** y plentyn i rannu gwybodaeth ar gyfer Gwaith Taith Bywyd, er y bydd hyn yn aml yn heriol, o ystyried y golled ddifrifol y mae'r teulu'n ei phrofi a'r teimladau o ddicter sy'n cyd-fynd yn nodweddiadol ag ef. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd amrywiaeth o bobl eraill sydd wedi dod i gysylltiad rheolaidd â phlentyn ac wedi dod i'w hadnabod a'u stori. Bydd gan bob person, boed mewn rôl broffesiynol neu anffurfiol, ei safbwynt ei hun. Gyda'i gilydd bydd yr holl safbwyntiau unigol hyn yn helpu i adeiladu naratif cyfoethocach a all helpu'r plentyn wrth iddo dyfu a datblygu i ddeall ei daith hyd at y pwynt hwnnw.



Mae'n cymryd pentref...

Un o'r bobl y tu allan i'r teulu cyntaf, a fydd yn adnabod y plentyn yn dda iawn yw eu gofalwr maeth. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) wedi cynhyrchu ystod o bodlediadau o'r enw [‘Talking Adoption’](#). Cyflwynir y podlediad hwn yn Saesneg yn unig, gyda'r Gymraeg a rennir isod fel esiamplau yn addasiad ar y gwreiddiol. Yn un o'r rhain, mae Jen, gofalwr maeth, yn siarad â Raluca, y cydlynnydd Gwaith Taith Bywyd rhanbarthol, am lenwi ffurflenni i gasglu gwybodaeth Gwaith Taith Bywyd, a sut mae hi'n gallu darparu manylion bob dydd, a allai gael eu colli fel arall.

Raluca: "A alli di rannu manylion na fyddet fel arfer yn ei roi i fabwysiadwyr oni bai am y ffurflen hon?"

Jen: "Efallai pethau fel eu bwydydd cyntaf, a allai gael eu hanwybyddu fel arall. Mae'n bwysig cynnwys a oeddent yn hoffi bwydydd penodol ar y dechrau, gan fod trafodaethau yn aml yn canolbwyntio ar eu harferion presennol, nid yr hyn a ddigwyddodd chwe mis yn ôl. Rwy'n pwysleisio cymaint yr oeddem yn eu caru, gan sicrhau eu bod yn gwybod eu bod yn cael gofal gorau a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi."

Gweithiwr proffesiynol, sy'n aml yn gweld plentyn ar hyd ei daith gyfan o gysylltiad cyntaf y gwasanaethau cymdeithasol, hyd at y gorchymyn mabwysiadu yw'r Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO). Mewn un arall o'r podlediadau, mae Kath, IRO, yn siarad am y persbectif y gall hi ei gyflwyno i Gwaith Taith Bywyd.

"Rwy'n meddwl bod IROs yn gweld neu'n rhyngweithio â'r plentyn yn wahanol i weithwyr cymdeithasol. Rydym yn canolbwyntio ar bethau fel rhieni biolegol yn mynychu eich digwyddiad a'r hyn a drafodwyd ganddynt yn yr adolygiad. Mae'n dda i IRO ddarparu'r safbwynt hwn. Mae'n helpu'r plentyn i ddeall pam y bu i'w rieni biolegol fynychu eu hadolygiadau neu, os na, pam ei fod yn rhy anodd iddyn nhw."

Mae'n cymryd pentref...

Gall yr IRO hefyd chwarae rhan hanfodol wrth fonitro cynnydd Gwaith Taith Bywyd, o'r adeg pan fo'r plentyn yn cael ei letya am y tro cyntaf hyd at yr adolygiad mabwysiadu olaf cyn i'r plentyn gael ei fabwysiadu. Person arall sydd â chyfrifoldeb allweddol dros sicrhau bod Gwaith Taith Bywyd yn digwydd ac o ansawdd da, yw rheolwr y tîm gwaith cymdeithasol. Nid yw hon yn dasg hawdd, o ystyried y pwysau ar weithwyr cymdeithasol a'r blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir gan Rhoda, y rheolwr tîm ar gyfer tîm amddiffyn plant prysur, yn siarad â Raluca.

"Mae gan y llys lawer o ofynion brys y mae'n rhaid i ni eu bodloni. Mae hyn bob amser wedi bod yn her i mi, yn bersonol ac yn broffesiynol, nid yn unig i gwblhau'r gwaith ond i'w wneud yn dda. Pan ddes i'n rheolwr, fe wnes i ganolbwyntio ar wneud hyn yn flaenoriaeth i'm tîm. Anelais at sicrhau bod pob person ifanc, nid yn unig y rhai a oedd ar fin cael eu mabwysiadu ond hefyd y rhai mewn gofal maeth hirdymor, yn cael mynediad at waith taith bywyd. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol."

Mae VVC wedi buddsoddi mewn cyflogi gweithwyr Taith Bywyd ymroddedig, wedi'u lleoli ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Mae Rozenn, sy'n oruchwylydd cyswllt i ddechrau ac wedyn yn weithiwr Taith Bywyd i blentyn, yn siarad am ei phrofiad o gasglu ac anodi ystod eang o wybodaeth a defnyddio hyn i baratoi'r Llyfr Taith Bywyd ar eu cyfer.

"Ysgrifennais broffil manwl o'r rhieni, gan gynnwys eu hobiau plentynod ac oedolion, gemau yr oeddent yn eu hoffi, a hoff dimau chwaraeon y tad. Yn gynwysedig roedd lluniau o'r fam fiolegol fel plentyn, yn dangos tebygrwydd y plentyn iddi."

Cesglais luniau o aelodau'r teulu y treuliodd y plentyn amser gyda nhw, gan gynnwys blynyddoedd gyda'r teulu biolegol, wedi'u labelu ag enwau a dyddiadau. Mae lluniau'n dangos twf y plentyn ar wahanol gamau: fel newydd-anedig yn yr ysbyty, yn dathlu penblwyddi a'r Nadolig gyda'r teulu biolegol. Mae yna hefyd luniau ac atgofion o'r plentyn gyda'i ofalwyr, ynghyd â thestun yn egluro pam na allai'r plentyn aros gyda nhw."

Mae'n cymryd pentref...

Yma mae cyfranogiad yn parhau hyd at a thu hwnt i leoliad.

“Ar ôl i'r plentyn gael ei fabwysiadu, rhoddodd y fam fiolegol flwch cof iddynt. Roedd y blwch hwn yn cynnwys lluniau addas a hoff sliper, tra roedd hi'n cadw ei bâr. Rhannodd y fam a'r gofalwyr atgofion pwysig i'r plentyn eu cofio, fel cân arbennig a'u ci annwyl. Roedd y manylion hyn wedi'u cynnwys yn eu llyfr. Roedd hefyd yn pwysleisio bod y plentyn yn cael ei garu. Yn ogystal, roedd y llyfr yn cynnwys manylion a lluniau am y mabwysiadwyr, y broses fabwysiadu, tegan gan y mabwysiadwyr, a'u cyfarfod cyntaf.”

Bu Emma, Gwarcheidwad Plant, sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), yn siarad â Raluca am gael cais i gyfrannu at Waith Taith Bywyd plant a pha mor bwysig yw hi pan fydd plant wrth iddynt fynd yn hŷn yn gallu gwerthfawrogi y gwahanol safbwyntiau a oedd gan bobl amrywiol am yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'u bywyd cynnar a pha mor hanfodol oedd gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

“Mae gan bawb eu barn eu hunain ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos, ac mae gweithwyr cymdeithasol yn aml yn gweld pethau'n wahanol. Wrth ddarllen eu tystiolaeth derfynol i'r llys, efallai y byddant yn dweud, 'Mae'r plentyn yn cael ei garu ond nid yw'n derbyn gofal da.' Mae hyn yn ymddangos yn rhy or-symml. Mae'n bwysig pwysio a mesur agweddau da a drwg sy'n effeithio ar y plentyn Rwy'n gwerthfawrogi cynnig safbwynt gwahanol Mae rhannu fy mhrofiadau, fel cyfarfod y rhieni a'r plentyn, yn fuddiol Mae'n dda i blentyn gael cysylltiadau â digwyddiadau'r gorffennol, yn enwedig os ydynt yn rhan o benderfyniadau arwyddocaol.”

Mae'n cymryd pentref...

Mae cael deunyddiau Gwaith Taith Bywyd o ansawdd da yn hanfodol, ond oni bai bod rhieni mabwysiadol yn cael eu hannog a'u cefnogi ac yn fodlon eu defnyddio a'u haddasu wrth i'r plentyn dyfu, gall eu defnyddioldeb fod yn gyfyngedig.

Siaradodd Sian, rhiant mabwysiadol, a symudodd i Gymru o Loegr, â rheolwr cymorth mabwysiadu SEWAS, Luiza Bivolaru, am fod yn ymroddedig i helpu plant i ddysgu am eu cefndir a'r heriau o ddefnyddio deunyddiau Gwaith Taith Bywyd nad oedd cystal ag y gallent fod wedi bod.

Sian: "Cyrhaeddodd ein tri phlentyn a'u siblingiaid biolegol gyda'i gilydd. Roedd yn ddwys o'r dechrau. Roedd y ffolderi stori bywyd a ddaeth gyda nhw yn wael, ac roedd ein gweithiwr cymdeithasol yn poeni amdanyn nhw. Roedden ni eisiau iddyn nhw wybod eu hanes yn gynnar. Gyda chymorth gweithiwr cymdeithasol, gwnaethom arddangosfa ffotograffau o'u teuluoedd biolegol a maeth, wedi'u gosod yn y gegin. Fe'i gosodwyd i fod yn gudd yn hawdd pe bai gwesteion yn dod. Defnyddiwyd pob cyfle i drafod eu bywyd cynnar. Roedd ein hynaf, bron yn bedair, yn siaradus. Mae ei sylwadau a chwestiynau yn gadael i ni ddefnyddio'r lluniau i'w haddysgu am enwau, wynebau, a pherthnasoedd. Daeth hyn yn rhan reolaidd o'n bywyd, gan helpu ein plant i ddeall eu hanes cynnar."

Mae Sian yn mynd ymlaen i ddisgrifio sut, wrth i'r plant ddatblygu, sylweddolodd y mabwysiadwyr fod angen iddynt addasu deunyddiau Taith Bywyd, tra'n parhau i annog sgysiau agored am fabwysiadu, ond hefyd i geisio cyngor a chymorth proffesiynol pan oedd angen.

"Roeddwn i eisiau creu llyfr stori bywyd manwl i'n plant wrth iddyn nhw dyfu i fyny. Fodd bynnag, roedd bywyd yn hynod o brysur, yn enwedig gyda thri o blant, ac ni allwn ddod o hyd i'r amser na'r gofod meddwl i'w wneud yn iawn. Roeddem yn canolbwyntio ar oroesi bob dydd, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar Roeddwn i'n teimlo'n euog am beidio â chael llyfr stori bywyd, ond fe ddefnyddion ni ffotograffau i helpu ein plant i ddeall a mynegi eu teimladau am eu gorffennol."

Mae'n cymryd pentref...

"Wrth iddynt dyfu, daeth eu cwestiynau yn fwy emosiynol. Roeddem yn ceisio trafod y pynciau hyn pryd bynnag y byddent yn codi, gan achub ar y cyfle i siarad bob amser. Pan oedd ein hynaf bron yn 10 oed, tyfodd ei chwestiynau yn fwy manwl a chymhleth. O ystyried yr agweddau heriol ar fywydau cynnar ein plant mabwysiedig, teimlais fod angen cyngor proffesiynol ar sut i rannu'r wybodaeth hon gyda nhw."

Mae Sian yn dangos dealltwriaeth wych o'r angen i Gwaith Taith Bywyd esblygu yn unol â newidiadau yn natblygiad gwybyddol a chymdeithasol y plentyn ac felly ei ddealltwriaeth o'i stori ei hun. Mae hi a'i phartner yn amlwg yn ddyfeisgar iawn, yn alluog ac yn ymroddedig, ond ar yr un pryd maent yn gwerthfawrogi bod adegau pan fydd yn ddefnyddiol ceisio cyngor a chymorth proffesiynol.





**O safbwynt y
derbynnydd...**

O safbwynt y derbynnydd...

Mae Sarah Ryan, gweithiwr cymdeithasol Taith Bywyd yn NWAS wedi darparu'r adroddiad dienw a ganlyn i ddangos pwysigrwydd Gwaith Taith Bywyd a sut mae'n gysylltiedig yn agos â chyswllt:

Mae Cadi yn 19 oed. Mae hi'n byw gyda'i Mam a'i Thad yng Ngogledd Cymru. Roeddent yn hyrwyddo gwaith Taith Bywyd trwy greu amgylchedd cartref lle mae pobl yn siarad yn rhydd am fabwysiadu. Roedd gan Cadi Lythyr Bywyd Diweddarach a hefyd llythyr gan ei mam enedigol neu 'Mam Bol'. Yn anffodus, ni dderbyniodd lyfr Stori Bywyd.

Mae cyswllt blwch post wedi bod yn bwysig iawn ym mywyd Cadi ac yn dilyn ei mabwysiadu roedd yn derbyn cardiau bob blwyddyn gan ei nain a thaid, mam fiolegol a thad biolegol 'Dad Bol'. Pan oedd Cadi yn 7 oed, bu farw ei thad genedigol. Ar y pwynt hwn gofynnodd Jane, chwaer fiolegol ei thad, i gydlynnydd y Blwch Llythyrau a allai gymryd yr awenau oddi wrth Dad Bol. Ysgrifennodd Jane llythyrau hynod hyfryd a hardd ac ymatebodd Cadi a'i theulu iddynt.

Cadi: Mae fy rhieni a fy chwaer fiolegol Jane wedi fy helpu i ddeall fy stori mabwysiadu. Roedd fy rhieni bob amser yn ateb fy nghwestiynau am fy mabwysiadu. Roeddent yn gwybod rhai manylion am fy rhieni biolegol. Rwy'n ddiolchgar amdanynt; maen nhw wedi fy helpu i ddeall fy rhesymau yn y gorffennol a mabwysiadu. Mae Jane, fy chwaer, hefyd wedi bod yn ddylanwad mawr. Mewn dim ond blwyddyn, mae hi wedi darparu llawer o wybodaeth am fy ngorffennol. Rwy'n ddiolchgar am ei chefnogaeth a'i chariad.

Sarah: Beth oedd ar goll o dy Lythyr Bywyd Diweddarach? Pa wybodaeth oeddet ti ei heisiau?

Cadi: Roedd diffyg manylion am fy nhad biolegol yn fy Llythyr Bywyd Diweddarach. Roedd yn canolbwyntio ar fy mam fiolegol, gan fy ngadael heb lun clir o fy nhad. Hoffwn pe bai'n cynnwys mwy amdano, fel ei gefndir a'i resymau dros symud i Gymru.



**Fframwaith Taih
Bywyd NAS a
Chanllaw Arfer Da**

Rhan allweddol o ymagwedd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol at Waith Taith Bywyd yw'r Fframwaith Gwaith Taith Bywyd, sy'n amlinellu 5 cam yn ystod taith plentyn o ddod i mewn i'r system ofal, pan fydd angen i ni ganolbwyntio'n benodol ar Waith Taith Bywyd.

Fframwaith Gwaith Taith Bywyd

Dylid defnyddio hyn ar y cyd â Chanllaw Arfer Da Gwaith Taith Bywyd Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service



CAM 1

Plentyn yn dod yn blentyn sy'n Derby'n Gofal

- Dylai Gwaith Taith Bywyd ddechrau cyn gynted â bod Plentyn yn dod yn Blentyn sy'n Derby'n Gofal. Bydd hyn yn cynnwys: Gwybodaeth, ffotograffau a chasglu cofroddion.
- Mae gan bawb sydd â rôl ym mywyd y plentyn gyfrifoldeb am hyn.
- Dylid defnyddio rhestr wirio cynllunio Gwaith Taith Bywyd. Mae gan Weithiwr Cymdeithasol y Plentyn rôl allweddol yn y Gwaith Taith Bywyd gyda ac ar gyfer y Plentyn.
- Mae Gofalwr Maeth y Plentyn yn bartner priodol yn y Gwaith Taith Bywyd gyda'r Plentyn.
- Dylid cofnodi'r holl Waith Taith Bywyd yn ofalus a'i storio'n ddiogel.
- Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) yn gyfrifol am fonitro Taith Gwaith Bywyd ar gyfer y Plentyn.
- Dylid cynnig 'cynghori' teulu biolegol a chymorth annibynnol i rieni biolegol ac aelodau eraill o'r teulu biolegol agos. Dylid annog y teulu biolegol i ymroi i gyfrannu i Waith Taith Bywyd ar gyfer y Plentyn.
- Dylai unrhyw fylchau yn y wybodaeth am y teulu biolegol gael eu cwblhau, lle bo modd, cyn y gwrandawriad terfynol.

CAM 2

Gorchymyn Lleoliad wedi'i ganiatáu

- Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol, y Gofalwr Maeth, a gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo'n briodol, gytuno ar y naratif i esbonio'n sensitif i'r Plentyn y cynllun ar gyfer mabwysiadu.
- Dylid adolygu'r cynllun ar gyfer Gwaith Taith Bywyd y Plentyn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cyfredol y plentyn yn sensitif.
- Dylid defnyddio rhestr wirio cynllunio Gwaith Taith Bywyd.
- Dylid cael caniatadau ysgrifenedig gan deulu Biolegol, Gofalwyr Maeth ac unrhyw drydydd parti eraill fel y bo'n briodol, i gynnwys ffotograffau, neu unrhyw wybodaeth nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Plentyn.
- Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro'r Gwaith Taith Bywyd ar gyfer y Plentyn.

CAM 3

Cysylltu a pharu

- Bydd Darpar Fabwysiadwr/Fabwysiadwyr wedi'u paratoi ac wedi'u hyfforddi ar bwysigrwydd Gwaith Taith Bywyd.
- Dylai cydweithio rhwng y darpar Fabwysiadwr/Fabwysiadwyr a'r unigolyn allweddol sy'n ymwneud â chynhyrchu deunyddiau Taith Bywyd ddigwydd cyn Panel Paru.
- Dylid sicrhau ansawdd deunydd Taith Bywyd yn barod ar gyfer y Panel Paru. Dylent ddarparu naratif cydlynol i'r Plentyn a chynnwys drafft o Lythyr Bywyd yn Ddiweddarach.
- Dylid paratoi cynllun ar gyfer Gwaith Taith Bywyd cyn lleoliad. Bydd hyn yn rhan o'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu.
- Dylid ystyried cynnal Diwrnod Gwerthfawrogi Bywyd i'r Plentyn.
- Dylid cynllunio amseriad y cyswllt terfynol rhwng Teulu Biolegol a'r Plentyn yn feddylgar er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Plentyn. Dylid cofnodi ffotograffau a manylion y cyswllt yn ofalus ar gyfer y Plentyn.
- Dylai'r Darpar Fabwysiadwyr baratoi deunyddiau cychwynnol i'r Plentyn, megis llyfr lluniau gyda lluniau o'u hunain a'u cartref.
- Dylai'r Panel Mabwysiadu wirio bod sicrhau ansawdd wedi digwydd ar ddeunyddiau Taith Bywyd ac wedi eu rhannu gyda'r darpar Fabwysiadwyr.
- Dylai Penderfynwr yr Asiantaeth wirio bod y Panel Mabwysiadu wedi trafod y deunyddiau Taith Bywyd.
- Dylid paratoi cytundebau cyswllt gan y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu mewn ymgynghoriad â'r teulu Biolegol a darpar Fabwysiadwyr, yn ôl y Cynllun Cymorth Mabwysiadu.
- Dylid hyrwyddo cynlluniau ar gyfer cyswllt yn y dyfodol rhwng y Plentyn a'i Ofalwr/Ofalwyr Maeth blaenorol.

CAM 4

Pontio

- Dylai fod cynllun clir ar gyfer pontio ar gyfer y Plentyn.
- Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol a'r Gofalwr Maeth, a gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo'n briodol, gytuno ar y naratif i rannu gwybodaeth yn sensitif am y teulu newydd gyda'r Plentyn.
- Unwaith y bydd Penderfynwr yr Asiantaeth wedi cymeradwyo'r paru, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant a'r Gofalwr Maeth yn dweud wrth y plentyn yn sensitif ac yn rhannu'r deunyddiau a ddarperir gan y darpar Fabwysiadwyr.
- Dylai anghenion emosiynol y plentyn fod yn ganolog i'r cynllunio.
- Dylid nodi un proffesiynolwr i arwain y broses o gydlynw'r broses cyflwyno.
- Dylai Gofalwyr Maeth y Plant a darpar Fabwysiadwyr gael cefnogaeth dda gan eu Gweithwyr Cymdeithasol cefnogi priodol.
- Lle bo'n briodol, dylai'r cyfle fod ar gael i'r rhieni biolegol (ac aelodau eraill arwyddocaol o'r teulu biolegol) gwrrd â'r darpar fabwysiadwyr. Os yw'n amhriodol hwyluso'r cyfarfod hwn, dylid cofnodi'r rhesymau dros hyn.

CAM 5

Lleoliad a pharhaus (Ôl-Orchymyn Mabwysiadu)

- Dylai cymorth fod ar gael i'r darpar Fabwysiadwyr a'r plentyn. Gall hyn gynnwys:
 - Trafodaethau anffurfiol
 - Adeiladu Taith Bywyd y teulu mabwysiadol
 - Casglu gwybodaeth bellach gan y teulu Biolegol
 - Hyfforddiant
 - Gwaith uniongyrchol
 - Gwaith therapiwtig
- Dylid cynnig cymorth wrth hwyluso cysylltu â'r teulu Biolegol.
- Dylai cytundebau cyswllt adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yn y Gwaith Taith Bywyd, megis wrth gyfeirio at aelodau teulu Biolegol.
- Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro'r Gwaith Taith Bywyd ar gyfer y Plentyn mewn adolygiadau hyd nes y rhoddir y Gorchymyn Mabwysiadu.
- Os yw'r Awdurdod Lleol yn ymwbyddol o wybodaeth am newid neu ddatblygiad yn amgylchiadau teuluoedd Biolegol, dylid cyfeirio at adran 5.5 o'r Canllaw Arfer Da yn ei gyfannwydd, er mwyn penderfynu a yw'n briodol rhannu hyn gyda Mabwysiadwr/Mabwysiadwyr y Plentyn.
- Nid yw Gwaith Taith Bywyd yn dod i ben.

Mae manylion y ffordd y rhennir cyfrifoldeb am dasgau penodol yn debygol o amrywio ychydig o un awdurdod lleol i'r llall. Felly mae pob rhanbarth yn gallu gwneud mân newidiadau i'r siart llif proses hon, i adlewyrchu eu trefniadau lleol.

Siart llif proses Gwaith Taith Bywyd yn seiliedig ar Fframwaith Gwaith Taith Bywyd – Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru


CAM 1: Plentyn yn derbyn gofal		Cam 2:Dyfarnu'r gorchymyn lleoli		Cam 3: Cysylltu a pharu		Cam 4: Pontio		Cam 5:Lleoliad a pharhaus (gorchymyn ôl-fabwysiadu)	
CAM 1	Unigolion â chyfrifoldeb	Tasgau							
PLENTYN YN DERBYN GOFAL	Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn	Cyfrifoldeb allweddol am gydlynu casglu gwybodaeth, lluniau, fideos a phethau i gofio ac ati, cyn gynted ag y bydd plentyn yn derbyn gofal (PDG).	Sicrhau bod pob GTB wedi'i gofnodi'n ofalus ac wedi ei storio'n ddiogel.	Gweithi o mewn partneri aeth â gofalwr maeth.	Annog aelodau o'r teulu biolegol i gyfrannu at GTB ar gyfer y Plentyn.	Dylai unrhyw fylchau yng ngwybodaeth y teulu Biolegol gael eu llenwi, lle bo hynny'n bosibl, cyn y gwrandawia d terfynol	Ysgrifennu Adroddiad Mabwysiadu Plentyn (CAR B), gan gynnwys lluniau o aelodau'r teulu biolegol. Cwblhau cytundebau datblygedig ar wahân ar gyfer datgelu gwybodaeth a dderbynnir ar ôl 18.	Cwblhewch restr wirio cynllunio GTB fel rhan o becyn ar gyfer Penderfyniad Dylid ei Leoli (SBPD) ar gyfer mabwysiadu. Mesur Perfformiad A	
	Gofalwr Maeth	Gweithredu fel partner priodol yng ngwaith GTB gyda'r Plentyn.	Cadw ac anodi lluniau, fideos, pethau i gofio teithiau, gwyliau ac ati a'u rhannu gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn						
	Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)	Adolygiad PDG yn nodi cynllun ar gyfer parhad	Yn gyfrifol am fonitro'r GTB ar gyfer y Plentyn.		Nodi gwaith taith bywyd fel rhan reolaidd o'r agenda mewn adolygiadau.		Sicrhau bod GTB yn fwy na chasgliad o ddeunyddiau ond yn dechrau ffurfio naratif cydlynol ar gyfer stori'r plentyn		
	Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu (GCM)	Cynnig 'cwnsela' i'r teulu Biolegol a chymorth annibynnol i rieni biolegol ac aelodau agos eraill o'r teulu Biolegol, gan gynnwys anogaeth i gyfrannu at GTB ac ymgysylltu mewn cyswllt â nhw. Rhoi cyngor a chymorth i GCM ynghylch GTB a chynllunio cyswllt.							
	Eraill	Dylid gofyn i bawb sy'n ymwneud â phlentyn ac sy'n adnabod plentyn gyfrannu atgofion personol a myfyrdodau fel rhan o GTB e.e. pawb a nodwyd uchod ynghyd â staff addysg, staff iechyd, swyddogion CAFCASS ac ati, gan ddefnyddio offeryn fel 'Fy Stori Hyd yn Hyn'.							

Mae dogfen un dudalen ar wahân wedi'i datblygu i hwn, sy'n amlinellu cyfrifoldebau penodol gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Gweithiwr Cymdeithasol Plentyn: Siart llif proses Gwaith Taith Bywyd yn seiliedig ar Fframwaith Gwaith Taith Bywyd NAS

	CAM 1: Plentyn yn derbyn gofal	Cam 2:Dyfarnu'r gorchymyn lleoli	Cam 3: Cysylltu a pharu	Cam 4: Pontio	Cam 5:Leoliad a pharhaus (gorchymyn ôl-fabwysiadu)			
	Tasgau ar gyfer gweithiwr cymdeithasol y plentyn (Mae cydlynwyr rhanbarthol GTB ar gael i darparu cyngor/hyfforddiant a chymorth arbenigol ar bob cam mewn perthynas â GTB fel proses barhaus).							
1	Cyfrifoldeb allweddol am gydlynw casglu gwybodaeth, lluniau, fideos a phethau i gofio ac ati, cyn gynted ag y bydd plentyn yn derbyn gofal (PDG).	Sicrhau bod pob GTB wedi'i gofnodi'n ofalus ac wedi ei storio'n ddiogel.	Gweithio mewn partneriaeth â gofalwr maeth.	Annog aelodau o'r teulu biolegol i gyfrannu at GTB ar gyfer y Plentyn.	Dylai unrhyw fylchau yng ngwybodaeth y teulu Biolegol gael eu llenwi, lle bo hynny'n bosibl, cyn y gwrandawriad terfynol	Ysgrifennu Adroddiad Mabwysiadu Plentyn (CAR B), gan gynnwys lluniau o aelodau'r teulu biolegol. Cwblhau cytundebau datblygedig ar wahân ar gyfer datgelu gwybodaeth a dderbynnir ar ôl 18.	Mesur Perfformiad A Cwblhewch restr wirio cynllunio GTB fel rhan o becyn ar gyfer Penderfyniad Dylid ei Leoli (SBPD) ar gyfer mabwysiadu.	
2	Dechrau paratoi plentyn ar gyfer pontio mewn partneriaeth â gofalwr maeth	Gweithio mewn partneriaeth â gofalwr maeth i nodi anghenion datblygol plentyn yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt.		Gweithio mewn partneriaeth â'r GCM i nodi darpar fabwysiadwyr sydd â'r gallu i ddiwallu anghenion uniongyrchol a thymor hwy y plentyn, gan gynnwys GTB parhaus.		Gweithio mewn partneriaeth â GCM sy'n Dod o Hyd i Deulu i nodi darpar fabwysiadwr(wyr)		
3	Diweddaru CAR B a pharatoi Cynllun Cymorth Mabwysiadu mewn partneriaeth â GCM sy'n Dod o Hyd i Deulu, gan sicrhau cyn belled ag y bo modd bod unrhyw fylchau mewn gwybodaeth hanesyddol yn cael eu llenwi.		Gweithio mewn partneriaeth â'r GCM i nodi darpar fabwysiadwyr sydd â'r gallu i ddiwallu anghenion uniongyrchol a thymor hwy y plentyn, gan gynnwys GTB parhaus.		Paratoi Llinell Amser Meithrin Trawma a chynllunio ar gyfer cyfarfod Deall y Plentyn (DyP)		Mesur Perfformiad 20a Llyfr Taith Bywyd Drafft a Llythyr Hwyrach mewn Bywyd a gyflwynir i'r panel paru	
4	Sicrhau bod anghenion emosiynol y plentyn yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio.	Mae pawb sy'n ymwneud â'r plentyn yn cytuno ar y naratif i rannu gwybodaeth am y teulu newydd gyda'r plentyn mewn modd sensitif. Yn dilyn cadarnhad Penderfynwr yr Asiantaeth o baru, mae'r gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr maeth yn dweud wrth y plentyn yn sensitif ac yn rhannu deunyddiau a ddarparwyd gan ddarpar fabwysiadwyr.		Un gweithiwr proffesiynol yn cael ei nodi i gymryd yr awenau wrth gydlynw'r broses o gyflwyno. Mae pob gweithiwr proffesiynol yn gweithio gydag eraill i reoli cyflwyniadau gan gadw anghenion emosiynol y plentyn yn ganolog, gan gydnabod sut mae anghenion pobl eraill yn effeithio ar y broses.		Mae CSW yn gweithio gyda'r GCM i drefnu cyfarfod cychwynnol rhwng rhiant (rhieni) mabwysiadol ac aelod(au) o'r teulu biolegol os yn bosibl. Os nad yw'n briodol, cofnodwch y rhesymau dros beidio â gwneud hynny.		
5	Datblygu naratif GTB y teulu mabwysiadol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol lle bo'n briodol a GTB therapiwtig	Mwy o gasglu gwybodaeth gan y teulu biolegol.	Cymryd rhan mewn llunio cytundebau cyswllt – terminoleg gyson.	Cefnogi hwylyso cyswllt â'r teulu biolegol.	Os bydd amgylchiadau'r teulu biolegol yn newid, ystyriwch yn ofalus a yw'n briodol rhannu hyn gyda'r mabwysiadwr/ma bwysiadwyr.	Cysylltu â rhieni mabwysiadol i greu fersiynau drafft a therfynol o lyfr GTB a llythyr Hwyrach Mewn Bywyd mewn perthynas â chynnwys ac iaith.	Darparu gwybodaeth i SAA yn yr adolygiad mabwysiadu 1 ^{af} ynghylch cynnydd wrth baratoi deunyddiau GTB.	Mesur Perfformiad 20 a Mesurau B a C Llyfr Taith Bywyd a Llythyr Hwyrach Mewn Bywyd bron wedi eu gorffen yn cael eu darparu erbyn yr 2il adolygiad mabwysiadu. Rhestr wirio sicrwydd ansawdd wedi'i chwblhau - deunyddiau GTB o safon dderbyniol.

Datblygwyd canllaw arfer da ar gyfer Gwaith Taith Bywyd hefyd ochr yn ochr â'r fframwaith gwreiddiol. Mae hwn wedi'i ddiwygio ychydig yn ddiweddar i'w ddiweddarau.



Rhifynnau blaenorol

I weld rhifynnau blaenorol y cylchlythyr hwn, cliciwch ar y dolenni isod. Mae pob rhifyn wedi canolbwyntio ar faes penodol o Waith Taith Bywyd yn ogystal â diweddariadau ar ddatblygiadau ym mhob un o'r rhanbarthau.





Cysylltiadau Defnyddiol

Cysylltiadau Defnyddiol

Isod mae rhestr o'r cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd sydd yn eu swyddi ledled Cymru ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol gwybod â phwy i gysylltu yn eich ardal os oes angen arweiniad, cyngor arnoch neu os oes gennych fynediad i unrhyw gyfleoedd hyfforddi.

Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sian E Gibbon | SEGibbon@sirgar.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Sarah Ryan | Sarah.Ryan@wrexham.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru

Raluca Miklovits | Raluca.Miklovits@blaenau-gwent.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu Y Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd

Tina James | tjames@valeofglamorgan.gov.uk

Sara Jones | sarajones@valeofglamorgan.gov.uk

Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin

Sarah Vaughan | s.vaughan1@westernbayadoption.org

Os ydych wedi datblygu unrhyw beth newydd i helpu gydag arfer da neu'n gwybod am unrhyw wybodaeth am gyflawni Gwaith Taith Bywyd, cysylltwch â'ch cynrychiolydd gwasanaeth mabwysiadu uchod neu Dîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar contact@adoptcymru.com





Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Angen mwy o help? Dim problem.

Cysylltwch â Thîm Canolog NAS

Ffôn: +44(0) 29 2087 3927

E-bost: contact@adoptcymru.com

Gwefan: www.adoptcymru.com